**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau

**National Assembly for Wales**
Equality, Local Government and Communities Committee

Carl Sargeant AC
Ysgrifennydd y Cabinet dros Gymunedau a Phlant

15 Awst 2017

Annwyl Carl

# Diogelwch tân mewn tyrau o fflatiau yng Nghymru

Diolch am gytuno i roi tystiolaeth lafar i'r Pwyllgor ar 27 Medi. Mae hyn yn dilyn ein sesiynau ar 13 Gorffennaf, lle cawsom dystiolaeth gan gynrychiolwyr o'r canlynol:

– Y Gwasanaeth Tân ac Achub yng Nghymru;

– Cyrff proffesiynol;

– Tenantiaid;

– Awdurdodau lleol; a

– Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig.

Roedd y sesiynau'n cwmpasu ystod eang o faterion, y mae rhai ohonynt wedi'u hamlygu yn y llythyr hwn. Ceir hefyd feysydd y byddem yn gwerthfawrogi mwy o eglurder arnynt gan Lywodraeth Cymru.

## Ymateb y sector cyhoeddus yn dilyn y tân yn Nhŵr Grenfell

Cawsom ein calonogi gan ymatebolrwydd yr holl bartneriaid yng Nghymru ar ôl y tân erchyll yn Nhŵr Grenfell. Clywsom sut yr oedd darparwyr tai cymdeithasol wedi gweithio'n agos gyda'r Gwasanaeth Tân ac Achub i ddarparu sicrwydd i denantiaid a phreswylwyr; ac i wirio diogelwch adeiladau.

Dywedodd y darparwyr tai cymdeithasol wrthym, yn gyffredinol, fod y wybodaeth a'r arweiniad a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru wedi bod yn effeithiol ac yn amserol. Yn benodol, clywsom fod y sesiwn friffio ar y cyd i'r cyfryngau wedi bod yn werthfawr yn ceisio chwalu mythau a sicrhau bod digwyddiadau yn cael eu nodi'n gywir.

Fodd bynnag, tynnodd Cyngor Abertawe sylw at bryderon am y llif gwybodaeth rhyngddo ef, Llywodraeth Cymru; Adran Llywodraeth y DU dros Gymunedau a Llywodraeth Leol; a'r Sefydliad Ymchwil Adeiladu. Nodwyd hefyd fod hyn yn ffynhonnell o rwystredigaeth i Lywodraeth Cymru, a byddem yn hoffi gwybod a yw'r materion hyn wedi'u cywiro erbyn hyn. Mae hyn yn amlwg yn dal i fod yn fater byw, fel, ar adeg ysgrifennu, mae goblygiadau'r profion system gyfan o'r deunyddiau cladin gan y Sefydliad Ymchwil Adeiladu yn aneglur o hyd. Yn dilyn canlyniadau diweddaraf y profion system gyfan a oedd ar gael ar 2 Awst, nad oedd y deunyddiau a ddefnyddiwyd yn Newport City Homes yn pasio, byddem yn croesawu rhagor o wybodaeth am y gefnogaeth a gaiff ei rhoi gan Lywodraeth Cymru i Newport City Homes, ac unrhyw landlord arall y mae canlyniadau profion yn y dyfodol yn effeithio arnynt.

Cawsom ein calonogi hefyd gan y datganiadau gan bob un o'r Gwasanaethau Tân ac Achub bod ganddynt y capasiti a'r offer i ymdrin â digwyddiad tebyg yng Nghymru.

## Gorchymyn Diwygio Rheoleiddio (Diogelwch Tân) 2005 ('y Gorchymyn')

*'Person cyfrifol'*

Gwnaethom ofyn i dystion am y Gorchymyn a'i effeithiolrwydd. Un o'r materion a godwyd gan y rhan fwyaf o'r tystion oedd y diffiniad yn y Gorchymyn o 'berson cyfrifol'. Fel y dywedodd Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru wrthym:

> "The limitation from my perspective is that of the person considered to be a responsible person. There is no specific qualification, accreditation or level of skill or knowledge defined in the legislation for that person."

Mae hwn yn fwlch posibl yn y fframwaith rheoleiddio sy'n sail i ddiogelwch tân. Roedd yn amlwg bod y landlordiaid y gwnaethom siarad â hwy yn cymryd eu cyfrifoldebau o ran y mater hwn o ddifrif, fodd bynnag, rydym yn gwybod yn y sector preifat efallai nad yw hyn bob amser yn wir. Credwn fod rhinwedd mewn archwilio ymarferoldeb newidiadau i'r fframwaith rheoleiddio a fyddai'n sicrhau bod yn rhaid i'r 'person cyfrifol' fodloni lefel ofynnol o gymhwyster, sgiliau neu brofiad perthnasol. Byddem yn croesawu eich sylwadau ar y mater hwn.

Rydym yn gwerthfawrogi, er nad oes gan y Cynulliad gymhwysedd deddfwriaethol ar hyn o bryd i ddiwygio'r Gorchymyn neu gyhoeddi rheoliadau newydd, unwaith y bydd Deddf Cymru 2017 wedi dod i rym bydd gan y Cynulliad gymhwysedd i wneud newidiadau i'r fframwaith rheoleiddio ar ddiogelwch tân.

Ymhellach i'r mater hwn, mae'r mater sylfaenol o'r Gwasanaeth Tân ac Achub yn nodi pwy yw'r person cyfrifol. Er nad yw hyn yn ymddangos fel problem yn y sector tai cymdeithasol, clywsom ei fod yn fwy cymhleth yn y sector preifat. Mae hyn yn destun pryder inni o ystyried bod diogelwch tân o'r pwys mwyaf yn y sector preifat hefyd. Byddem yn croesawu eich sylwadau ar y ffordd orau o fynd i'r afael â'r mater hwn.

*Canllawiau cysylltiedig*

Cyfeiriodd nifer o dystion at adolygiad gan Lywodraeth Cymru o'r canllawiau sy'n cyd-fynd â'r Gorchymyn; 'Fire safety in purpose-built blocks of flats'. Credai'r tystion fod yr adolygiad hwn bron wedi'i gwblhau. Byddem yn croesawu

diweddariad ar pryd y cyhoeddir y canllawiau diwygiedig, ac os bydd yn ystyried unrhyw un o'r datblygiadau sy'n deillio o Dŵr Grenfell.

*Awdurdod tân sylfaenol*

Tynnodd Cartrefi Cymunedol Cymru sylw at y ffaith bod ei aelodau weithiau wedi cael cyngor gwahanol gan bob Gwasanaeth Tân ac Achub. Mae'n cynnig cael awdurdod tân sylfaenol ar gyfer byw mewn tyrau o fflatiau, a fyddai'n sicrhau cyngor cyson ledled Cymru, yn ogystal â galluogi'r awdurdod hwnnw i ddatblygu arbenigedd penodol yn y maes hwn. Awgrymwyd y byddai cael awdurdod sylfaenol o'r fath wedi'i gwneud yn haws, yn dilyn Grenfell, cael data cywir ar dyrau o fflatiau yng Nghymru yn gynt. Byddem yn croesawu eich sylwadau ar yr awgrym hwn.

## Mesurau diogelwch tân

Roedd llawer o'r dystiolaeth yn canolbwyntio ar y canlynol:

– mesurau diogelwch tân sydd eisoes ar waith mewn tyrau o fflatiau yng Nghymru;

– yr heriau a wynebir gan landlordiaid i sicrhau lefelau digonol o ddiogelwch tân; a

– mesurau pellach y gellid eu cymryd.

*Pwysigrwydd rhannu yn adrannau*

Roedd hon yn thema gref. Clywsom am y ffyrdd gwahanol y gall rhannu yn adrannau gael ei leihau, yn aml drwy waith gwella ar raddfa fach o fewn fflatiau unigol. Mae'r Gwasanaeth Tân ac Achub wedi gwneud yn glir bod ei gyfrifoldebau a'i bwerau gorfodi yn stopio mewn drysau ffrynt ar gyfer fflatiau a'u bod ond yn gyfrifol am ardaloedd cymunedol. Mae ymdrin ag unrhyw doriadau o fewn unedau unigol, yn fater i'r awdurdod lleol. A ydych yn hyderus bod gan awdurdodau lleol yr adnoddau a'r sgiliau i asesu a gorfodi gofynion diogelwch tân o fewn fflatiau unigol yn ddigonol?

Dywedodd yr awdurdodau lleol wrthym fod ymdrin ag addasiadau o fewn fflatiau yn fater i'r fflatiau hynny sydd wedi'u gwerthu. Un mater penodol oedd

lesddeiliaid yn gosod drws ffrynt newydd, a all gael effaith andwyol sylweddol ar sicrhau nad yw tanau'n lledaenu y tu hwnt i un cartref.

Roedd landlordiaid cymdeithasol yn hyderus nad oedd gwaith adnewyddu sylweddol yn effeithio ar rannu yn adrannau, a diogelwch tân yn ehangach. Fodd bynnag, roedd ganddynt bryderon ynghylch gwaith ar raddfa fach y gellir ei wneud gan breswylwyr, neu wasanaethau cyfleustodau fel cwmnïau telathrebu, nad ydynt o bosibl yn sylweddoli y gall mân newidiadau effeithio ar rannu yn adrannau, a diogelwch tân.

Byddem yn croesawu eich sylwadau ar y ffordd orau o fynd i'r afael â'r materion hyn.

*Archwiliadau Diogelwch Tân yn y Cartref*

Roeddem yn synnu clywed bod rhai preswylwyr yn gwrthod archwiliadau diogelwch tân yn y cartref am ddim a gynigiwyd yn dilyn y tân yn Nhŵr Grenfell. Er ein bod yn deall y gall fod amrywiaeth o ffactorau sy'n dylanwadu ar y penderfyniad hwn, gan gynnwys diffyg ymddiriedaeth gyffredinol mewn cyrff cyhoeddus, neu bryderon y gall peiriannau gael eu cymryd i ffwrdd. Tynnodd y Gwasanaeth Tân ac Achub sylw at waith cyrff megis Electrical Safety First, a galwodd ar weithgynhyrchwyr i fod yn fwy rhagweithiol wrth alw offer yn ôl pan fydd problemau'n codi gyda hwy.

Byddai gennym ddiddordeb mewn gwybod beth arall y gellir ei wneud i annog preswylwyr yn well i fanteisio ar yr archwiliadau diogelwch tân yn y cartref, ac a oes angen rhagor o wybodaeth gyhoeddus am beryglon tân mewn cartrefi unigol.

*Ôl-ffitio systemau chwistrellu a gwaith adferol arall*

Clywsom bryderon sylweddol gan landlordiaid cymdeithasol ynghylch y gost gynyddol o osod systemau chwistrellu mewn tyrau, a gwaith adferol arall, megis ailosod cladin, yn dilyn y tân yn Nhŵr Grenfell. Nododd landlordiaid fod hyn o ganlyniad i gynnydd yn y galw ledled y DU. Rydym yn pryderu y bydd yn arwain at y rhai sy'n gallu talu fwyaf yn cael y gwaith hwn wedi'i wneud yn gyntaf, yn

hytrach na dull sy'n seiliedig ar risg o nodi lle mae'r angen mwyaf. Byddem yn croesawu rhagor o wybodaeth am y trafodaethau sy'n cael eu cynnal gyda Llywodraeth y DU a'r diwydiant ar hyn, er mwyn sicrhau bod landlordiaid cymdeithasol yn gallu gosod y mesurau diogelwch angenrheidiol am bris nad yw'n artiffisial o uchel, ac mewn modd amserol.

Mynegwyd pryderon hefyd gan gynrychiolwyr tenantiaid y bydd y bobl sydd fwyaf agored i niwed mewn cymdeithas o bosibl yn gorfod talu am fethiannau adeiladu ar y lefel fwyaf sylfaenol, a chwestiynwyd tegwch hyn. Hoffem wybod a fydd unrhyw gymorth ariannol yn cael ei gynnig i landlordiaid cymdeithasol i sicrhau nad oes rhaid i denantiaid ariannu'r rhan fwyaf o'r gwaith adfer sy'n deillio o'r tân yn Nhŵr Grenfell a'r angen am fwy o ddiogelwch tân.

Yn gysylltiedig â'r mater hwn, clywsom hefyd bryder penodol gan Bron Afon a Merthyr Valleys Homes ynghylch effaith cyfyngu ar Fudd-dal Tai mewn tai cymdeithasol i gyfradd y Lwfans Tai Lleol, sy'n is na'r rhent y mae'r cymdeithasau tai hyn yn ei godi ar hyn o bryd. Dywedodd Merthyr Valleys Homes erbyn 2019, pryd y disgwylir i'r cynnig ddod i rym, y gallai'r bwlch fod yn tua £7 yr wythnos. Bydd hyn yn cael effaith ar ei allu i sicrhau bod y rhent y mae'n ei dderbyn yn cynnwys cost mesurau diogelwch tân. Er y cydnabyddir nad yw hwn yn bolisi Llywodraeth Cymru, byddem yn hoffi gwybod pa drafodaethau yr ydych wedi'u cael gyda Llywodraeth y DU ar y mater hwn ac a oes unrhyw gamau y gall Llywodraeth Cymru eu cymryd i liniaru'r effaith o gyfyngu ar Fudd-dal Tai mewn tai cymdeithasol i gyfraddau Lwfans Tai Lleol, yn arbennig mewn perthynas â sicrhau bod y mesurau diogelwch tân priodol yn cael eu rhoi ar waith mewn tyrau ledled Cymru.

## Rheoliadau Adeiladu 2010 (Rheoliadau)

Trafodwyd materion mewn perthynas â'r Rheoliadau a'r Dogfennau Cymeradwy sydd wedi'u cynhyrchu o dan y Rheoliadau. Nodwyd nad yw'n ofyniad (er ei fod yn digwydd weithiau o ganlyniad i gydberthnasau gwaith da rhwng y partïon) y dylid ymgynghori â'r Gwasanaeth Tân ac Achub ar ddiogelwch tân a chydymffurfio â'r

Rheoliadau wrth adeiladu tyrau o fflatiau. Byddem yn ddiolchgar o'ch cyngor ynghylch a fyddwch yn ystyried adolygu'r fframwaith statudol a/neu'r Dogfennau Cymeradwy i'w gwneud yn ofynnol cynnwys y Gwasanaeth Tân ac Achub yn y broses hon.

Hefyd, a ydych yn bwriadu addasu neu ailwampio'r Rheoliadau mewn perthynas â diogelwch tân yn gyffredinol mewn tyrau o fflatiau (rydym yn cydnabod, er bod gan Lywodraeth Cymru bwerau gweithredol yn y maes hwn, ni fydd y Rheoliadau o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad Cenedlaethol hyd nes y bydd Deddf Cymru 2017 yn dod i rym).

Nodwn fod Llywodraeth y DU wedi cyhoeddi adolygiad annibynnol o reoliadau adeiladu a diogelwch tân ar 28 Gorffennaf. Wrth gyhoeddi'r adolygiad, dywedodd Llywodraeth y DU y bydd yr adolygiad yn gweithio'n agos gyda'r gweinyddiaethau datganoledig, a byddem yn croesawu rhagor o wybodaeth am sut y bydd yr adolygiad hwn yn rhyngweithio â gwaith Llywodraeth Cymru a Grŵp Ymgynghorol Diogelwch Tân Cymru.

## Cladin allanol

Amlygodd Cyngor Sir y Fflint, er bod y wyddoniaeth a'r arbenigedd ynghylch diogelwch rhag tân mewnol wedi cael eu datblygu dros nifer o ddegawdau:

> “Externally, cladding and the types of systems that we’ve got now are quite a new science…it is a new science that maybe we haven’t got enough knowledge about…
>
> …basically, we’re putting something on the outside of a building, and we’ve set light to a building from the external side, and yet, not from the inside. We’ve got good fire protection measures on the inside, generally, across most buildings, but we’re moving into a new science, a new area of technology, that maybe, collectively, a lot of people haven’t got a lot of knowledge about.

Mae'n bosibl bod hyn yn ffactor yn yr oedi wrth symud i brofi system gyfan, y nodwyd yn gynharach.

Clywsom hefyd, er y gall cladin fodloni'r holl safonau a rheoliadau pan gafodd ei osod am y tro cyntaf, y gall ei effeithiolrwydd gael ei leihau drwy heneiddio, achosion o dorri'r cladin oherwydd gwaith gwella a'r tywydd.

Rydym yn teimlo y byddai hwn yn faes a allai gael budd o ystyriaeth fanylach gan Grŵp Ymgynghorol Diogelwch Tân Cymru. Byddai gennym ddiddordeb mewn gwybod a yw Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU yn edrych i weithio gyda'r Sefydliad Ymchwil Adeiladu, y diwydiant a landlordiaid er mwyn helpu i wella dealltwriaeth o dechnoleg cladin, a sut y mae'n effeithio ar ddiogelwch tân.

## Y sector preifat

Roedd ein tystiolaeth yn canolbwyntio ar y sector tai cymdeithasol, ond hefyd yn ystyried materion o fewn y sector preifat, fel y nodwyd yn gynharach. Rydym yn croesawu'r ffaith bod y sector preifat bellach yn cael ei gynrychioli ar Grŵp Ymgynghorol Diogelwch Tân Cymru a'i gynnwys yng nghylch gorchwyl y Grŵp. Hoffem gael rhagor o wybodaeth am sut arall yr ydych wedi ymgysylltu â'r sector preifat (gan gynnwys, yn benodol, llety myfyrwyr, sy'n gynyddol mewn tyrau o fflatiau sydd dan berchnogaeth a rheolaeth breifat), a pha gamau ychwanegol, os o gwbl, yn eich barn chi sy'n angenrheidiol i sicrhau bod lefelau o mesurau diogelwch tân yn debyg rhwng y sector cymdeithasol a'r sector preifat.

## Tenantiaid a phreswylwyr

Cawsom ein calonogi gan weithgareddau landlordiaid cymdeithasol yn syth ar ôl Grenfell i ddarparu gwybodaeth, cyngor a sicrwydd i'w tenantiaid a'u preswylwyr. Roedd yn amlwg y cafodd hyn ei gymryd o ddifrif gan bawb dan sylw, ac rydym yn cymeradwyo'r gwaith hwn.

Ond yn fwy eang, clywsom fod diffyg cymorth ffurfiol i denantiaid herio landlordiaid. Er bod llawer o waith wedi'i wneud o ran helpu tenantiaid i graffu ac ymgysylltu â landlordiaid, dadleuodd Steve Clark o Tenantiaid Cymru yn gryf fod

angen llais cynrychioliadol cenedlaethol ar gyfer tenantiaid i herio landlordiaid yn allanol.

Mewn perthynas â hyn, roedd cynnydd y sector rhentu preifat, nad oes ganddo'r strwythurau ffurfiol i ymgysylltu â thenantiaid sy'n cael eu hymgorffori yn y sector tai cymdeithasol. Awgrymodd Steve Clark fod methu â chael corff tenantiaid cenedlaethol yn tanseilio unrhyw ymdrechion i helpu tenantiaid preifat i lywio datblygiad y sector hwn.

A yw Llywodraeth Cymru yn cytuno bod bwlch o ran corff tenantiaid cynrychioliadol cenedlaethol? Os felly, beth y gall Llywodraeth Cymru ei wneud er mwyn helpu i sefydlu a chefnogi corff o'r fath?

*Cyngor i denantiaid a phreswylwyr*

Archwiliwyd gyda'r holl dystion ddigonolrwydd y cyngor a roddwyd i breswylwyr, ac yn arbennig rheoli unrhyw newid mewn cyngor os bydd tân yn digwydd. Clywsom y gall fod yn anodd rhoi cyngor sy'n cwmpasu pob posibilrwydd, yn enwedig gan fod pob adeilad, a phob tân yn wahanol.

Byddem yn croesawu barn Llywodraeth Cymru ar ddigonolrwydd y cyngor a roddwyd i denantiaid a phreswylwyr, a'r ffordd orau o gyfleu newidiadau mewn amgylchiadau, yn yr achos annhebygol o dân, i breswylwyr.

Fel rwy'n siŵr y gallwch werthfawrogi, nid yw'r llythyr hwn yn ymdrin â phob un o'r materion a godwyd yn ystod y sesiwn. Er cyflawnder, amgaeaf gopi o'r trawsgrifiad o'r sesiwn ar 13 Gorffennaf.

Er mwyn helpu i lywio ein sesiwn gyda chi ar 27 Medi, byddwn yn gwerthfawrogi ymateb i'r llythyr hwn erbyn 15 Medi.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig, ynghyd â'n pwyllgorau cyfatebol yn San Steffan a Senedd yr Alban, sef y Pwyllgor Cymunedau a Llywodraeth Leol a'r Pwyllgor Llywodraeth Leol a Chymunedau (yn y drefn honno).

Edrychaf ymlaen at drafod y materion hyn ymhellach gyda chi ar 27 Medi.

Yn gywir

John

John Griffiths AC
Cadeirydd

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu'n Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.